**Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Pwyllgor Rhanbarth De Cymru**

## Y SGILIAU SYLFAENOL YNG NGHYMRU

1. Mae gennym broblem o bwys gyda'r sgiliau sylfaenol yng Nghymru. Mae gormod o blant yn ymadael â'r ysgol gynradd heb ddigon o'r adnoddau i ymdopi â gofynion trwm y cwricwlwm uwchradd: mae gormod o bobl ifanc yn ymadael â'r ysgol gyda sgiliau sylfaenol sy'n llai na gofynion y byd modern; mae gormod o oedolion yn cael trafferth gyda'r sgiliau sylfaenol sy'n ail natur i'r mwyafrif ohonom. Rhieni yw amryw o'r oedolion hyn sy'n cael anhawster i roi i'w plant y gefnogaeth honno mewn iaith a llythrennedd a ddylai fod yn sail i'w haddysg yn y dyfodol. Ac fel hyn y mae'r cylch o dan-gyflawni o genhedlaeth i genhedlaeth yn dal i droi.

2. Mae ar 1 o bob 3 phlentyn un ar ddeg oed ddiffyg yn y sgiliau sylfaenol y dylsent fod wedi eu meistrioli erbyn yr oedran 11, ac maent yn cychwyn yn yr ysgol uwchradd gyda sgiliau llythrenedd a rhifedd sy'n llai na gofynion y cwricwlwm uwchradd ehangach a thrymach. Mae rhai plant yn adennill y tir a gollwyd; mae eraill yn methu.

3. Dim ond 36% o bobl ifanc Cymru sy'n llwyddo arholiadau TGAU Cymraeg/ Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth yn 16 oed. Caiff eraill raddfeydd TGAU mor isel mewn Cymraeg/Saesneg a Mathemateg fel eu bod yn dangos i ddarpar gyflogwyr nad oes ganddynt afael sicr ar y sgiliau sylfaenol hanfodol. Ac yna ceir 1 o bob 10 o bobl ifanc sy'n ymadael â'r ysgol heb unrhyw TGAU o gwbl.

4. Mae ein colegau addysg bellach yn delio â sefyllfa mewn rhai achosion lle bo rhagor na thraean o'u myfyrwyr newydd angen cefnogaeth ychwanegol mewn llythrennedd a rhifedd er mwyn ymdopi â gofynion rhaglenni galwedigaethol a sgiliau allweddol. Fel y mae'r raddfa ddiweithdra yn cwympo'n is, mae'r broblem yn waeth i ddarparwyr hyfforddiant sy'n ymdrin â'r Fargen Newydd, wrth iddynt wynebu canran uwch o'u cleientau sy'n llawer anos i'w helpu.


5. Mae canlyniadau arolygon cenedlaethol diweddar yn awgrymu tra bod gan 24% o oedolion Lloegr sgiliau llythrennedd a rhifedd gwael, yna yng Nghymru mae 28% yn meddu ar sgiliau llythrennedd gwael, a 32% â sgiliau rhifedd gwael. Ar gyfartaledd, mae rhagor na hanner y rhain ar lefel y gellid yn hawdd wella arni, dim ond iddynt

dderbyn y gefnogaeth addas.

6. Mewn rhai ardaloedd, mae'r problemau llythrennedd yn uwch na'r cyfartaledd ym mhob ward. Ym Mlaenau Gwent, er enghraifft, lle ceir un o'r lefelau uchaf o broblem gyda llythrennedd, mae'r lefel o angen yn amrywio rhwng 29.75% yn Ystrad Mynach a 39.4% yn Nantyglo. Ond hyd yn oed yng Nghaerdydd a Sir Fynwy, lle nad yw'r broblem yn ymddangos ar yr wyneb mor ddwys, ceir cilfachau lle bo'r problemau llythrennedd yn uchel iawn, ac yn amrywio rhwng cyn ised â 13.98% yn Y Creigiau a 46.01% yn Y Drenewydd (Butetown), a 17.07% ym Magwyr a 35.35% yng Ngorllewin Trefynwy.

7. Nid oes drwy Gymru gyfan yr un ardal awdurdod lleol nag etholaeth lle gellir anwybyddu'r broblem. [Gweler tablau'r adroddiad]

8. Dangosir ein safle rhyngwladol ar ffurf graff yn y siart isod, a godwyd o arolwg rhyngwladol diweddar ar sgiliau sylfaenol oedolion gan OECD[1]. Dengys yn glir y bwlch arswydus sydd rhwng Cymru a gwledydd diwydiannol eraill.



## EFFAITH SGILIAU SYLFAENOL GWAEL

9. Mae'r effaith ar yr unigolyn yn ddifrifol. Y bobl gyda sgiliau sylfaenol gwael yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o orfod bodloni ar waith di-grefft neu waith lled-grefftus o safon isel, gan nad yw'r swyddi tra-chrefftus - sef swyddi'r dyfodol yma yng Nghymru - ar gael i'r bobl sydd â sgiliau llythrennedd a rhifedd gwael.

10. Swyddi crefft isel a di-grefft yw'r rhai sydd mewn mwyaf o berygl yn yr economi fodern, ac felly, y gweithwyr sydd â sgiliau sylfaenol gwael sydd debycaf o golli eu swyddi. Y gwir yw, mae'r bobl sydd â sgiliau sylfaenol gwael ddwywaith cyn debyced o golli, neu o gael y sac o'u swydd gyntaf un.

11. Pan fo rhywun sydd â sgiliau llythrennedd a rhifedd gwael yn colli eu swydd, maent bedair gwaith cyn debyced o brofi diweithdra dros y tymor hir.

12. Nid yw'r rhai hynny sy'n llwyddo i ddal eu gafael ar eu swyddi yn debygol o dderbyn unrhyw hyfforddiant a fyddai'n eu galluogi i symud ymlaen yn eu gwaith. Y drefn arferol yw neilltuo hyfforddiant i'r rhai sydd â lefelau uwch o sgiliau ac addysg.

13. Mae cost sgiliau sylfaenol gwael i ddiwydiant yng Nghymru yn sylweddol. Golyga golledion o ganlyniad i gamgymeriadau, anhawster wrth roi a derbyn cyfarwyddiadau yn ddigon cywir, anfodlonrwydd i fabwysiadu dulliau newydd o weithio - gweithio fel tîm, mesurau ansawdd, cyflwyno technoleg newydd. Yn y farchnad fyd-eang sy'n gofyn am sgiliau uchel, mae'r nifer o oedolion sydd â sgiliau sylfaenol gwael yn cael effaith o bwys ar ein gallu i gystadlu.

14. Nid yn y gwaith yn unig y gwelir effaith mawr sgiliau sylfaenol gwael. Rydym hefyd yn ymwybodol fod pobl sydd â llythrennedd a rhifedd gwael yn llai tebygol o bleidleisio, a llai tebygol fyth o ymuno â gweithgareddau cymunedol. Maent yn brin o'r sgiliau a'r hyder i ymuno â'r broses ddemocrataidd yn ogystal â'r adfywio cymdeithasol ac economaidd o fewn eu cymunedau. Maent yn llai tebygol o ymuno â

gweithgareddau ysgol eu plant.

15. Mae pris cymdeithasol arall. Er na wnaed fawr o ymchwil i'r cysylltiad rhwng sgiliau sylfaenol gwael a throseddu, mae'r ffeithiau yn dweud y cyfan. Mae 6 o bob 10 o'r bobl sydd yng ngharchardai Cymru, dynion ifanc yn bennaf, fwy neu lai yn ymarferol anllythrennog ac anrhifog.

16. Mae cyswllt agos rhwng sgiliau llythrennedd a rhifedd gwael a thlodi: nid tlodi economaidd yn unig, ond hefyd dlodi dyheadau a diwylliant. Ni wireddir dyhead y Cynulliad Cenedlaethol am gymdeithas gynhyrchiol a chynhwysol heb ymdrin yn gyntaf ag anghenion y rhai a dderbyniodd yr addysg leiaf boddhaol.

## SUT ALLWN NI NEWID HYN?

17. Rhaid i'n gweledigaeth ni fod yn un o Gymru hollol lythrennog a rhifog, lle nad oes neb yn brin o'r sgiliau sylfaenol sy'n ail natur i'r mwyafrif ohonom. Yn syml, mae'n rhaid inni:

Ø sicrhau fod pob plentyn yn barod ar gyfer dysgu wrth iddynt gychwyn ysgol;

Ø leihau'r nifer o blant sy'n cael trafferth wrth ddysgu darllen, ysgrifennu a defnyddio rhif wrth ymadael â'r ysgol gynradd;

Ø leihau'r nifer o bobl ifanc sydd, wrth ymadael â'r ysgol, yn dal i gael trafferth â'r sgiliau sylfaenol sy'n ail natur i'r mwyafrif ohonom;

Ø leihau'r nifer o oedolion gyda sgiliau sylfaenol gwael.

18. Ni allwn ymdrin â phroblem ddifrifol sgiliau sylfaenol yng Nghymru drwy roi mymryn o drefn ar y broblem a amlygir gan oedolion yn unig. Mae angen i ni sefydlu strategaeth sy'n cwmpasu'r cyfnod 'o'r crud i'r bedd', ac yn cynnwys mesurau sy'n anelu at rwystro methiannau cynnar yn ogystal â mesurau i gynorthwyo pobl ifanc ac oedolion i adennill tir. Ond eto, mae'r angen i ymdrin â'r broblem oedolion yn fater o frys. Ni allwn ddisgwyl hyd nes datrys y broblem yn yr ysgolion.

19. Mae swyddogaeth rhaglenni llythrennedd a rhifedd i'r teulu o'r pwys mwyaf, drwy dynnu ar symbyliad rhieni i wella eu sgiliau eu hunain fel eu bod hwythau yn eu tro mewn gwell sefyllfa i roi cymorth i'w plant. Profwyd gwerth y rhaglen hon, ac mae'n rhaid dod â hi o fewn cyrraedd teuluoedd ym mhob cwr o Gymru.

20. Mae yna hefyd swyddogaeth allweddol, ond un nas datblygwyd yn llawn, ar gyfer cyflogwyr ac undebau llafur yn gweithio law yn llaw â cholegau a darparwyr hyfforddiant, i godi safonau'r rhai hynny sy'n chwilio am waith a'r rhai sydd eisoes â gwaith. Gall y symbyliad i ganfod gwaith neu ennill dyrchafiad yn ogystal â sgiliau gwaith o'r newydd fod yn ysgogiad i wella sgiliau sylfaenol. Rhaid inni hefyd ddenu'r sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ar gyrion cymdeithas, lle mor aml y gwelir sgiliau sylfaenol gwael yn ffactor sy'n cyfrannu i gyflawni gwael ac anfodlonrwydd. Rhaid i'n strategaeth alluogi pobun allweddol i gymryd rhan.

## CASGLIADAU

21. Mae'r hyn sy'n ein wynebu gyfystyr ag argyfwng cenedlaethol; er mwyn ymdrin ag ef, bydd angen cael ymdrech ar y cyd sy'n cynnwys amrediad eang o sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Onibai y cymerir camau brys ac effeithiol, mae'r sefyllfa'n siðr o waethygu. Bydd raid seilio'r cydymdrech yn gadarn ar bartneriaethau, o fewn yn ogystal â thu allan i fyd addysg; partneriaethau sy'n cynnwys cyflogwyr, undebau llafur a llu o asiantaethau a sefydliadau cymunedol sy'n ymdrin ag eithrio cymdeithasol ac economaidd, law yn llaw ag ysgolion, colegau ac AALlau.

22. Ni all unrhyw unigolyn neu sefydliad ar ei ben / phen ei hun gynnal y frwydr i wella llythrennedd a rhifedd. Bydd rhaid cysylltu'r gweithredu yn glos â datblygu gwell gofal plant, ysgolion mwy effeithiol, diwygio hyfforddiant athrawon, adfywio'r cymunedau lleol yn gymdeithasol ac economaidd ynghyd â gweithredu mesurau i ymdrin ag eithrio cymdeithasol.

23. Mae arnom angen strategaeth genedlaethol ar gyfer y sgiliau sylfaenol yng Nghymru i droi'n weithredoedd yr egwyddorion a restrir yn Building Excellent Schools Together [BEST], Learning is for Everyone [LIFE] An Education and Training Action Plan for Wales [ETAP] , yn ogystal â'r weledigaeth ar gyfer Cymru a nodir yn www.betterwales.com sef cynllun strategol cyntaf y Cynulliad

Cenedlaethol.

24. Argymhelliad The Education and Training Action Plan for Wales oedd: 'y dylid datblygu Cynllun Strategol Sgiliau Sylfaenol cynhwysfawr i Gymru, mewn cydweithrediad â'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, i godi safonau llythrennedd a rhifedd'. Rydym yn falch o gyflwyno fersiwn ddrafft o strategaeth arfaethedig i Gymru.

**Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, 9 Fehefin, 2000**